# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Gwasanaeth Gofal Cartref Mewnol – Cyngor Sir Caerfyrddin**

**Cyngor Sir Caerfyrddin**
**3 Heol Spilman**
**Caerfyrddin**
**SA31 1LE**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

Date_Last_Inspection_Completed_Donot_Delete

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Gwasanaeth Gofal Cartref Mewnol Cyngor Sir Gaerfyrddin

| | |
|---|---|
| Math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cymorth Cartref |
| Darparwr cofrestredig | Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Lleoedd cofrestredig | 0 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 22 Mehefin 2018 a 25 Mehefin 2018 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Ydy. Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ddefnyddio'r gwasanaeth. |

## Crynodeb


Mae'r bobl a'u perthnasau yn canmol y gofal a'r cymorth a gânt. Mae cofnodion gofal yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn adlewyrchu anghenion unigol pobl. Mae'r staff gofal wedi'u hyfforddi'n dda, yn meddu ar wybodaeth dda am y bobl maent yn gofalu amdanynt ac yn frwdfrydig ynghylch gweithio yn y gwasanaeth.

Mae rheolwyr ymroddedig a gwybodus yn rheoli'r gwasanaeth ac yn cael eu cefnogi'n dda gan yr unigolyn cyfrifol. Mae'r rheolwyr yn hawdd mynd atynt ac yn cael eu parchu'n fawr gan bawb dan sylw. Mae gan yr unigolyn cyfrifol oruchwyliaeth dda o'r gwasanaeth ac mae systemau cadarn ar waith i gefnogi hyn. Mae gan y tîm arwain gydberthnasau gweithio da a gweledigaeth glir am y gwasanaeth.

## Llesiant

Mae'r bobl yn derbyn gofal a chymorth sy'n diwallu eu hanghenion. Mae'r staff yn wybodus, yn ofalgar ac yn ymfalchïo yn y gofal a'r cymorth a ddarperir ganddynt. Mae cynlluniau personol yn darparu gwybodaeth dda am yr unigolyn ac mae cofnodion dyddiol yn cefnogi'r rhain. Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae llawer o'r staff yn siarad Cymraeg, sy'n golygu bod pobl yn gallu siarad Cymraeg neu Saesneg yn ôl eu dewis. Mae'r bobl yn cadw mor iach â phosibl gan fod y gwasanaeth yn gweithio ochr yn ochr â gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'r bobl a/neu eu cynrychiolwyr yn cyfrannu at benderfyniadau sy'n cael effaith arnynt. Mae'r unigolyn cyfrifol yn cynnwys pobl yn y prosesau o sicrhau ansawdd gan gynnwys eu cyfrifoldebau ynghylch Rheoliad 73. Mae'r arferion llywodraethu yn canolbwyntio ar ddatblygu'r gwasanaeth trwy ddefnyddio gwybodaeth o arolygon ac archwiliadau. Mae gan y staff gofal fynediad at bolisïau a gweithdrefnau, sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae gan y rheolwyr a'r unigolyn cyfrifol weledigaeth glir o'r gwasanaeth ac maent yn darparu arweinyddiaeth a rheolaeth dda.

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi mewn ffordd sy'n cael effaith gadarnhaol arnyn nhw a'u teuluoedd. Dywedodd perthynas, *“mae'r gofalwyr wedi helpu fy mam yn fawr ac mae'n galonogol iawn i mi”.* Mae trefniadau recriwtio a hyfforddi yn sicrhau bod pobl yn cael y gofal a chymorth iawn, gan weithwyr dawnus a gwybodus.

Mae'r staff yn amddiffyn pobl rhag camdriniaeth ac esgeulustod ac yn hollol ymwybodol o'u cyfrifoldebau i leisio pryderon. Mae'r bobl yn gwybod sut i wneud cwyn os oes angen ac mae ganddynt hyder yn y rheolwyr a'r sefydliad.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn derbyn gofal a chymorth sy'n diwallu eu hanghenion unigol. Cynhelir asesiadau cychwynnol a chynhyrchir cynlluniau gofal o'r rhain. Mae'r cynlluniau'n rhoi manylion da am anghenion yr unigolyn a sut y dylai’r gweithwyr gofal ddarparu'r gofal a'r cymorth. Mae'r bobl yn gallu derbyn eu gofal trwy gyfrwng y Gymraeg, gan fod canran dda o'r staff yn gallu siarad Cymraeg. Mae asesiadau risg ar waith ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r bobl a/neu eu cynrychiolwyr yn cael eu cynnwys wrth gynllunio eu gofal. Dywedodd unigolyn wrthym *“Maen nhw’n gofyn am fy ngofal a’r gofalwyr yn rheolaidd”*. Mae'r cofnodion dyddiol yn dangos bod y gweithwyr gofal yn darparu'r gofal a nodir yn y cynlluniau unigol. Fodd bynnag, nid oes unrhyw dystiolaeth ddogfennol gan yr unigolyn na'i gynrychiolydd i gadarnhau ei fod wedi derbyn y gofal a chymorth sydd wedi'u cynllunio iddo ar ôl pob galwad. Mae hyn wedi cael ei drafod gyda'r rheolwyr a'r unigolyn cyfrifol.

Mae anghenion iechyd a gofal pobl yn cael eu cefnogi a'u hyrwyddo.  Mae gan y gweithwyr gofal ddealltwriaeth dda o anghenion iechyd a gofal unigolion ac maent wedi meithrin perthynas dda â nhw. Dywedodd y bobl wrthym; *“Mae’r gofalwyr yn wych”* ac *“maen nhw [y gweithwyr gofal] yn arbennig iawn”.* Ceisir cefnogaeth gweithwyr proffesiynol trwy'r Tîm Amlddisgyblaethol Gofal Canolraddol. Mae'r gwasanaeth mewnol wedi bod yn bartner allweddol yn y gwaith o ddatblygu model Gofal Canolraddol newydd, ac mae wedi gweithio gyda phartneriaid ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i ddatblygu arferion, prosesau ac egwyddorion dull seiliedig ar asedau o frysbennu atgyfeiriadau am ofal a chymorth yn amlddisgyblaethol. Gan ganolbwyntio ar lwybrau rhyddhau o’r ysbyty o ychydig o wardiau peilot dethol i ddechrau, bydd y model yn symud o’r cyfnod peilot ac yn cael ei roi ar waith yn llawn ym mis Ebrill 2022. Mae'r bobl a'u perthnasau y gwnaethom siarad â nhw yn glir iawn ynghylch gwerth y gwasanaeth a'r budd iddynt gan ddweud; “*Rwy’n llawer cryfach ers i mi gael help”* ac *"mae’r gofal yn ardderchog, mae’n galonogol cael gofalwyr dibynadwy rheolaidd, maen nhw’n hyfryd”.*

Mae pobl yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu gwarchod rhag niwed. Mae gan y gweithwyr gofal ddealltwriaeth dda o'u rôl o ran gwarchod pobl. Mae’r gweithwyr gofal yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i warchod pobl rhag COVID-19. Maent yn glir ynghylch y defnydd cywir o gyfarpar diogelu personol (PPE) a mesurau atal a rheoli heintiau.  Mae polisïau a gweithdrefnau, cymorth hyfforddi ac offer ar waith i sicrhau bod y staff gofal yn cynnal diogelwch a llesiant pobl. Dywedodd un unigolyn wrthym *“Rwy’n teimlo’n ddiogel iawn gyda’r gofalwyr; maen nhw'n gwisgo'r pethau cywir fel masgiau, menig a ffedogau”* ac *“Roedd yn rhyfedd iawn ar y dechrau, ond roedd y gofalwyr wedi tawelu ein meddyliau am y masgiau”.*

Dywedodd y bobl a’u perthnasau wrthym na fyddent yn oedi cyn adrodd unrhyw bryderon a allai fod ganddynt i’r gweithwyr gofal neu’r “swyddfa” a’u bod yn teimlo y byddai eu pryderon yn cael eu clywed a’u trin. Mae'r bobl yn ymwybodol o weithdrefnau cwyno'r sefydliad.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae rheolwyr ymroddedig yn rheoli'r gwasanaeth ac yn cael eu cefnogi'n dda gan yr unigolyn cyfrifol. Mae'r rheolwyr yn dangos dealltwriaeth dda iawn o'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'r gweithwyr gofal maent yn eu harwain. Mae system fonitro TG yn cefnogi eu cyfrifoldebau rheoli gweithredol o ddydd i ddydd. Mae'r unigolyn cyfrifol yn wybodus iawn ac ar gael bob amser i gynorthwyo'r rheolwyr, a chyda'i gilydd, maent yn creu tîm arwain cryf gyda gweledigaeth glir ar gyfer y gwasanaeth. Fel rhan o'i gyfrifoldebau rheoleiddiol, mae'r unigolyn cyfrifol yn ceisio adborth gan y bobl, eu perthnasau ac aelodau staff i lywio'r ymweliadau Rheoliad 73 chwarterol â a'r adroddiadau ansawdd gofal sy'n cael eu llunio bob chwe mis. Cadarnhawyd hyn gan y bobl berthnasol.

Mae’r staff sy'n uchel eu cymhelliant, yn cael eu gwerthfawrogi ac wedi'u hyfforddi'n dda, yn cefnogi'r bobl. Mae'r holl weithwyr gofal a oedd yn rhan o'r arolygiad yn dweud wrthym eu bod yn cael eu cefnogi'n dda iawn gan y rheolwyr, yr unigolyn cyfrifol a'r sefydliad. Maent yn dweud; *“Mae’r rheolwyr yn gefnogol iawn bob amser”, “maen nhw [y rheolwyr] ar gael bob amser os ydych eu hangen”* ac *“maen nhw [y rheolwyr] yn anhygoel”.* Yn ogystal, mae'r staff yn gwerthfawrogi’r goruchwylwyr yn yr un modd. Dywedodd un gweithiwr gofal wrthym; *“Mae fy ngoruchwyliwr yn seren, mae hi’n haeddu gwobr!”* Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith i gynorthwyo arferion da ac maent yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Penodir staff yn dilyn proses recriwtio drylwyr ac mae'r holl gofnodion yn bodloni'r gofynion rheoliadol. Mae'r staff yn cael ystod o hyfforddiant gorfodol a phenodol i'w cefnogi yn eu rôl. Mae'r cofnodion hyfforddiant a thrafodaethau gyda'r staff yn cadarnhau hyn. Yn ogystal, darperir hyfforddiant a chefnogaeth i staff sy'n gweithio ar eu pen eu hunain, mewn lleoliadau anghysbell weithiau a chyda'r nos o bosibl.

Mae mesurau sefydlu a goruchwylio cynhwysfawr ar waith. Dywed gweithwyr gofal wrthym eu bod yn cael eu goruchwylio a'u cefnogi'n rheolaidd ac ar y cyfan mae hyn yn cael ei adlewyrchu yng nghofnodion y staff. Mae'r rheolwyr yn sicrhau bod y staff gofal yn cael eu goruchwylio bob tri mis fel sy'n ofynnol o dan y rheoliadau. Dywedodd gweithiwr gofal wrthym *“Rwy’n cael goruchwyliaeth reolaidd gyda fy rheolwr. Mae'r rhain wedi bod yn wahanol oherwydd y pandemig; ond, mae fy nghyfarfodydd yn ddefnyddiol iawn”.* Dywedodd aelod arall o staff sydd wedi cwblhau ei gyfnod sefydlu yn ddiweddar wrthym *“mae'r cyfnod sefydlu yn dda iawn gyda llawer o hyfforddiant a gwybodaeth ond bob amser gyda chefnogaeth uwch aelod o staff neu fy rheolwr”.*